



Darlledu Gwasanaeth
Cyhoeddus yn oes y rhyngrwyd.
Gwledydd y DU a'u rhanbarthau

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 2 Gorffennaf 2015

Y ddogfen hon

Fel rhan o Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, rydyn ni wedi ystyried y cyd-destunau gwahanol, a pherfformiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ers 2008 (gan gynnwys data 2014), ym mhob un o Wledydd y DU ac yn rhanbarthau'r Gwledydd pan fo hynny'n briodol. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein canfyddiadau ac yn nodi'r sialensiau a fydd yn codi yn y dyfodol i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ym mhob un o ranbarthau a Gwledydd y DU.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys atodiad data sy'n cynnwys y data allweddol sy'n ymwneud â chynnwys y Gwledydd a'r rhanbarthau. Bydd Adroddiad Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2015, a gyhoeddir ym mis Gorffennaf 2015, hefyd yn cynnwys data perthnasol ar gyfer y cyfnod 2009-2014.

Cynnwys

Adran		Tudalen
1	Sut mae'r dirwedd cyfryngau yn wahanol ar draws Gwledydd y DU	4
2	Perfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Ngwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr	10
3	Meysydd a allai achosi pryder	17

Sut mae'r dirwedd cyfryngau yn wahanol ar draws Gwledydd y DU

Mae'r diwydiant cyfryngau a chyfathrebu ar draws y DU wedi gweld cryn newid ers 2008

- 1.1 Mae trydydd adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, yn dangos bod diwydiant cyfryngau a chyfathrebu'r DU wedi gweld newidiadau mawr ers 2008. Mae hyn wedi digwydd o ganlyniad i gwblhau'r newid o ddarlledu analog i ddarlledu digidol, y cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio rhyngwrdd band eang i wyllo teledu a'r nifer sy'n defnyddio dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu a dyfeisiau symudol. Wrth i gysylltedd wella, mae'r rhyngwrdd wedi dod yn fwyfwy canolog i fywydau pobl, gan gynnwys o ran sut maent yn dewis ac yn gwyllo cynnwys teledu.
- 1.2 Y cefndir ar gyfer yr Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus felly ydy'r twf ym mhŵer ac ym mhosiibiliadau'r rhyngwrdd. Er mai teledu byw ydy'r prif ffordd o wyllo ar gyfer y rhan fwyaf o bobl o hyd, mae teledu dal i fyny, sy'n cael ei wyllo dros y rhyngwrdd a rhaglenni a chynnwys sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf dros y rhyngwrdd yn dod yn bwysicach i gynulleidfaoedd, yn enwedig cynulleidfaoedd iau. Heddiw, dim ond 50% o bobl 16-24 oed a 61% o bobl 25-34 oed sy'n gwyllo'r teledu'n fyw (hy gwyllo rhaglen deledu ar yr adeg mae'n cael ei darlledu).¹ Mae nifer y bobl ifanc (16-34 oed) sy'n gwyllo newyddion rhyngwladol a chenedlaethol ar y teledu wedi disgyn bron i 30% ers 2008 i 33.7 awr y pen y flwyddyn.² Mae rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gael ar alwad hefyd wrth gwrs, yn ogystal ag ar deledu byw, mae BBC iPlayer ac All4 Channel 4 yn benodol, wedi ymestyn cyrhaeddiad y darlledwyr hynny. Mae'r datblygiadau hyn wedi effeithio ar bobl ym mhob cwr o'r DU.
- 1.3 Er bod cynnydd yn y defnydd o'r rhyngwrdd wedi effeithio ar bob Gwlad a rhanbarth yn y DU, mae rhai meysydd allweddol lle mae'r Gwledydd datganoledig yn dangos ymddygiad gwahanol yng nghyswllt y cyfryngau i weddill y DU ac i Loegr, sy'n adlewyrchu cyd-destun gwahanol pob Gwlad. Er enghraifft, yn yr Alban yn 2013, dywedwyd mai'r rhyngwrdd oedd prif ffynhonnell newyddion yr ymatebwyr am eu Gwlad, ar ôl teledu a phapurau newydd, ac roedd yn ail i deledu yng Ngogledd Iwerddon (11%) ac yng Nghymru (13%); dywedodd dros 60% o'r ymatebwyr yng Nghymru a Gogledd Iwerddon mai'r teledu oedd eu prif ffynhonnell newyddion am eu Gwlad, a 80% yn yr Alban.³ Mae pobl yr Alban hefyd yn gwyllo llai o gynnwys clywedol ar-lein na phobl Gwledydd eraill y DU, mae'r ffigur hefyd yn is na chyfartaledd y DU, er bod lefel cyrhaeddiad band eang yn debyg i gyfartaledd y DU.
- 1.4 Mae gan bob Gwlad a rhanbarth yn y DU ei hunaniaeth ei hun, a dylai darlledu gwasanaeth cyhoeddus adlewyrchu hynny, ac mae ganddynt lefelau gwahanol o ran y technolegau a'r gwasanaethau gwahanol sydd ar gael ac sy'n cael eu defnyddio.

¹ Mae hyn yn cynnwys DVDs, deunyddiau byr, teledu sydd wedi cael ei recordio, dal i fyny a gwasanaethau ar alwad eraill a theledu llinol traddodiadol. Ffynhonnell Ymchwil *Diwrnod Digidol* Ofcom 2014

² BARB

³ *Traciwr Cyfryngau* Ofcom.

- 1.5 Dros y blynyddoedd diwethaf mae setliad datganoli Gwledydd a rhanbarthau'r DU wedi dod o dan lawer iawn o bwysau gwleidyddol. Ers 2008 mae hi wedi dod yn bwysicach i bobl eu bod yn gallu cael gafael ar newyddion o ansawdd uchel am eu Gwlad neu eu rhanbarth. Yn dilyn y refferendwm ar annibyniaeth yn yr Alban a'r cyhoeddiad dilynol gan y Llywodraeth newydd ynghylch cynlluniau ar gyfer datganoli pellach ar draws y DU, mae'n debyg y bydd hyn yn peri cryn sialens i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn y DU drwyddi draw ac ym mhob un o'r Gwledydd a'r rhanbarthau'n unigol.
- 1.6 Mae hi'n bwysig felly ystyried y cyd-destunau gwahanol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus ym mhob Gwlad, ei berfformiad yn y cyd-destun hwn, a'r sialensiau penodol mae hyn yn ei beri ar gyfer y dyfodol, sy'n mynd y tu hwnt i'r sialensiau sy'n wynebu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol.

Mae cyd-destun y farchnad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn wahanol ym mhob un o Wledydd y DU

- 1.7 Mae poblogaeth Lloegr yn dominyddu'r DU gan gynrychioli 84% (53.9 miliwn o bobl) o gyfanswm y boblogaeth, ac mae'r Alban yn cynrychioli 8% (5.3 miliwn o bobl), Cymru 5% (3.1 miliwn o bobl) a Gogledd Iwerddon 3% (1.8 miliwn o bobl). Ond, fel y nodwyd uchod, mae gan bob gwlad ei hunaniaeth ei hun ac mae'n bwysig bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn. Mae hi'n bwysig nodi hefyd mai dim ond 13% o gyfanswm poblogaeth y DU sy'n byw yn Llundain (8.2 miliwn o bobl). Drwy gynnwys gweddill de ddwyrain Lloegr mae hyn yn dod â'r cyfanswm hwn i 27%, neu 16.8 miliwn o bobl, felly mae'r rhan fwyaf o boblogaeth y DU yn byw y tu allan i'r rhan o'r DU lle mae'r rhan fwyaf o raglenni wedi cael eu gwneud yn hanesyddol.
- 1.8 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus - a dim ond y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gorfod gwneud hyn - yn ceisio adlewyrchu Gwledydd a rhanbarthau gwahanol y DU mewn nifer o ffyrdd:
- 1.8.1 Yn gyntaf, maen nhw'n gwneud rhaglenni yn y Gwledydd a'r rhanbarthau i'w darlledu ar draws y DU i gyd. Mae rhaglenni o'r fath yn cynnwys dramâu sydd wedi cael eu gosod yn y gwledydd a'r rhanbarthau fel *Shetland*, *The Fall*, *Vera*, *Broadchurch* a *Cucumber*; gosod penodau o gyfresi sydd wedi rhedeg ers tro byd o amgylch y DU, fel *Grand Designs*, *Countryfile* a *Come Dine With Me*; a rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain sy'n fwy generig, fel *Waterloo Road*, *Doctor Who* a *Casualty*. Drwy wneud hyn maen nhw'n gallu portreadu'r Gwledydd a'r rhanbarthau nid yn unig iddyn nhw eu hunain ond i weddill y DU, mewn cynrychiadau o ansawdd uchel sy'n cyrraedd cynulleidfa fawr, gyda chyllidebau na fyddent yn fforddiadwy i raglenni sy'n cael eu gwneud yn benodol ar gyfer pob Gwlad neu ranbarth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd y Wlad neu'r rhanbarth penodol yn cael eu portreadu yn y rhaglen; mae hyn yn dibynnu ar sut bydd yr ardal yn cael ei defnyddio yn y cynhyrchiad (er enghraifft, defnyddir Lerpwl i gynrychioli Birmingham yn *Peaky Blinders*).
- 1.8.2 Yn ail, maen nhw'n darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes y Gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r rhain yn cael eu darlledu ar y rhwydweithiau sydd â'r cyrhaeddiad uchaf - BBC One ac ITV/STV/UTV - mewn slotiau amlwg, sy'n eu helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd mawr.

- 1.8.3 Yn drydydd, maen nhw'n cynhyrchu rhai rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar gyfer y Gwledydd datganoledig, sy'n ceisio adlewyrchu diwylliant penodol pob Gwlad. Does dim rhaglenni o'r fath yn cael eu gwneud ar gyfer rhanbarthau Lloegr mwyach.
- 1.8.4 Yn olaf, maen nhw'n cynhyrchu gwasanaethau iaith ar gyfer y Gwledydd, sy'n ceisio cynhyrchu ystod eang o allbwn ar draws pob genre allweddol ar gyfer eu cynulleidfaoedd: S4C, y darlledwr Cymraeg ar gyfer y 562,000 sy'n siarad Cymraeg; BBC Alba, mewn Gaeleg ar gyfer y 58,000 o siaradwyr Gaeleg, a grŵp ehangach sydd â diddordeb yn yr Aeleg, yn yr Alban, a rhaglenni Gwyddeleg a Gaeleg Ulster ar gyfer y 10% a'r 8% y naill a'r llall o bobl sydd â rhyw allu yn yr ieithoedd hyn yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn denu cynulleidfaoedd nad ydynt yn siarad yr ieithoedd a ddefnyddir i ddarlledu, yn enwedig ar gyfer rhaglenni chwaraeon a cherddoriaeth.
- 1.9 Wrth geisio adlewyrchu anghenion y Gwledydd a'r rhanbarthau, mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nifer cyfyngedig o adnoddau ac mae'n rhaid eu cydbwysu rhwng y pedwar dull gweithredu hwn er mwyn ceisio darparu'r rhaglenni mwyaf effeithiol i'w cynulleidfaoedd.
- 1.10 Mae ein hymchwil gyda chynulleidfaoedd yn awgrymu bod y pwysigrwydd mae pobl yn ei roi ar weld eu Gwlad neu eu rhanbarth yn cael ei bortreadu'n deg i weddill y DU wedi cynyddu ar draws y DU ers 2008.⁴ Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r setliad cyfansoddiadol ar gyfer Gwledydd y DU wedi dod dan lawer o bwysau gwleidyddol, ac mae mwy o drafod wedi bod ynghylch rôl rhanbarthau pob Gwlad yn eu bywyd gwleidyddol a diwylliannol. Ers 2008 mae pobl ar draws y DU wedi bod yn rhoi mwy o bwysigrwydd ar y ffaith eu bod yn cael newyddion o ansawdd uchel am eu Gwlad neu eu rhanbarth. Yn dilyn y refferendwm ar annibyniaeth yn yr Alban yn 2014 a'r cyhoeddiad dilynol gan Lywodraeth newydd y DU ynghylch cynlluniau ar gyfer datganoli pellach ar draws y DU, mae'n debyg y bydd hyn yn peri cryn sialens i allu'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn y DU drwyddi draw ac ym mhob un o'r Gwledydd a'u rhanbarthau'n unigol.
- 1.11 Mae Gwledydd y DU i gyd yn cynnwys rhanbarthau sydd â hunaniaeth ac anghenion gwahanol, felly pan fo'n ymarferol mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi sylw i'r materion a godwyd ar lefel ranbarthol, yn ogystal ag ar y lefel genedlaethol. Yn benodol, mae gan wylwyr yn Lloegr a'r Alban raglenni ar gael ar lefel ranbarthol. Serch hynny, nid yw hi bob tro'n bosibl mapio'r rhanbarthau unigol yn union, neu'r hunaniaethau yn y rhanbarthau hynny, wrth ystyried natur y data sydd ar gael.
- 1.12 Mae gweddill yr adran hon yn nodi'r prif wahaniaethau mewn cyd-destun marchnad ar gyfer pob un o'r Gwledydd, gan gynnwys amlinellu prif rwymedigaethau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Y cyd-destun yng Ngogledd Iwerddon

- 1.13 Un o nodweddion amlycaf y dirwedd cyfryngau yng Ngogledd Iwerddon ydy pa mor boblogaidd ydy'r cyfryngau lleol. UTV sy'n dal trwydded Sianel 3 ar gyfer Gogledd Iwerddon a rhaid iddo ddarparu o leiaf chwe awr yr wythnos o raglenni ar gyfer Gogledd Iwerddon, gan gynnwys pedair awr o raglenni newyddion a 26 munud o raglenni materion cyfoes. Rhaid i BBC Northern Ireland ddarparu o leiaf 280 awr o

⁴ Cofiwch fod y cwestiwn a ofynnwyd yn y Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, sy'n casglu'r data hwn, wedi newid yn 2010.

raglenni newyddion a materion cyfoes y flwyddyn ar gyfer Gogledd Iwerddon, a 80 awr ychwanegol o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar BBC One Northern Ireland. Rhaid i BBC Two Northern Ireland ddarparu 55 awr arall y flwyddyn o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion.

- 1.14 Yn 2014, lansiodd Northern Visions ei wasanaeth teledu lleol ar gyfer Belfast, NvTv, sy'n darparu o leiaf 15 awr yr wythnos o raglenni lleol.
- 1.15 Mae nifer o wasanaethau sydd wedi cael eu trwyddedu yng Ngweriniaeth Iwerddon hefyd ar gael yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys y sianel Wyddeleg TG4 ac RTÉ, darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Iwerddon.
- 1.16 Darpariaeth yr amblecsau DTT darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon ydy'r isaf o'r pedair Gwlad, gan gyrraedd 97% o dai.
- 1.17 Mae radio masnachol lleol a BBC Radio Ulster/Foyle ymysg y gwasanaethau radio y gwrandewir arnyn nhw amlaf yn unrhyw ran o'r DU. Mae nifer y gorsafoedd radio cymunedol hefyd wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf.
- 1.18 Er bod y sector papurau newydd yn dirywio, mae'n dal yn gymharol gryf, gyda thri phapur newydd dyddiol a llu o bapurau newydd wythnosol. Mae lluosogrwydd darpariaeth wedi cynyddu yng Ngogledd Iwerddon oherwydd bod gorsafoedd radio a phapurau newydd ar gael o Weriniaeth Iwerddon.
- 1.19 Mae gan Ogledd Iwerddon y lefel uchaf o rwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf ar gael ar draws y DU i gyd, er bod y nifer sydd â band eang ychydig yn is na chyfartaledd y DU.

Y cyd-destun yn yr Alban

- 1.20 Mae'r BBC a'r rheini sy'n dal y drwydded Sianel 3 yn darparu amrywiaeth o wasanaethau teledu yn yr Alban. Mae BBC Scotland yn darparu fersiynau o BBC One a BBC Two ar gyfer yr Alban i gyd, ac mae'n rhaid iddyn nhw ddarparu 265 awr y flwyddyn o raglenni newyddion a materion cyfoes sy'n ymwneud yn benodol â'r Alban ar BBC One. Rhaid iddyn nhw hefyd ddarparu 330 awr y flwyddyn o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar draws BBC One a BBC Two, y nifer uchaf o oriau cynnwys materion cyfoes a heb fod yn newyddion yn unrhyw un o'r Gwledydd datganoledig. Mae'r BBC hefyd yn darparu'r gwasanaeth Gaeleg BBC Alba, sydd ar gael ar draws y wlad, ac mae'n rhaid i'r sianel hon gynnwys oddeutu pum awr o gynnwys gwreiddiol yr wythnos, heb gynnwys newyddion.
- 1.21 Mae STV, sy'n dal y drwydded ar gyfer Sianel 3, yn gwasanaethu'r rhan fwyaf o'r Alban, ac mae'n rhaid iddo ddarparu o leiaf pum awr 30 munud o raglenni bob wythnos, gan gynnwys pedair awr o newyddion, a 33 munud o raglenni materion cyfoes. Mae gan y gwasanaeth hwn ddau ranbarth ar wahân, rhanbarth y Canol, a rhanbarth y Gogledd, sydd ill dau â dau is-ranbarth. Mae gan bob is-ranbarth o leiaf 25 munud o raglenni newyddion sy'n benodol iddyn nhw bob wythnos.
- 1.22 Mae ITV Border yn gwasanaethu De'r Alban a Cumbria, gan rannu ei allbwn i ddarparu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar faterion Albanaidd yn ne'r Alban. Yn 2014, cafodd y drwydded ei diwygio i fynnu bod ITV Border yn darparu tair awr a phum munud o raglenni newyddion a 90 munud ychwanegol o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn benodol ar gyfer is-ranbarth Gororau'r Alban.

- 1.23 Mae teledu lleol wedi cael ei lansio yn yr Alban, gyda gwasanaethau ar yr awyr yng Nghaeredin ac yn Glasgow. Mae gwasanaethau i fod i gael eu lansio yn Aberdeen, Ayr a Dundee dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r holl wasanaethau teledu lleol yn yr Alban yn cael eu darparu gan STV.
- 1.24 Mae gan yr Alban sector radio masnachol gweddol iach hefyd, gyda'r elw wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Mae radio masnachol lleol yn denu mwy o wrandawyr ymysg cynulleidfaoedd yr Alban nag mewn Gwledydd eraill, er bod nifer llai yn gwrando ar y radio yn gyffredinol. Mae BBC Radio Scotland a BBC Radio nan Gaidheal (mewn Gaeleg) yn darparu gwasanaethau cenedlaethol ar draws yr Alban i gyd ac mae nifer y gorsafoedd radio cymunedol wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf.
- 1.25 Mae gwasg genedlaethol yr Alban yn dal yn boblogaidd, er bod nifer y darllenwyr yn disgyn gyda mwy a mwy o'r gynulleidfa yn mynd ar-lein i gael eu newyddion.
- 1.26 Mae cyfran yr eiddo yn yr Alban sy'n gallu cael gafael ar rwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf yn is na chyfartaledd y DU ond mae'r nifer sy'n defnyddio band eang ar yr un lefel â chyfartaledd y DU.

Y cyd-destun yng Nghymru

- 1.27 Mae BBC Wales, ITV Cymru ac S4C yn gwasanaethu Cymru. Rhaid i BBC Wales gynhyrchu o leiaf 470 awr y flwyddyn o raglenni'n benodol ar gyfer Cymru ar draws BBC One a BBC Two, o'r rheini mae 250 awr yn rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar BBC One. Mae ITV Cymru, sydd nawr yn gweithredu o dan un drwydded ar gyfer Cymru, yn darparu gwasanaeth i Gymru gyfan, sy'n cynnwys o leiaf pum awr a 30 munud yr wythnos o raglenni, mae pedair o'r rheini yn rhaglenni newyddion, ac mae 47 munud o raglenni materion cyfoes. Mae S4C yn darparu gwasanaeth Cymraeg ar gyfer Cymru gyfan, gan gynhyrchu tua 2,000 awr o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf y flwyddyn, heb gynnwys y rhaglenni sy'n cael eu darparu i'r sianel gan y BBC.
- 1.28 Nid yw'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu rhaglenni gwahanol ar gyfer rhanbarthau gwahanol yng Nghymru. Serch hynny, mae gan Gymru un orsaf deledu lleol yn darlledu, Made in Cardiff, sy'n cael ei rhedeg gan Made Television. Mae hon yn darparu gwasanaeth lleol i Gaerdydd, gyda rhaglenni ychwanegol o weddill rhwydwaith Made Television. Bydd gwasanaethau teledu lleol yn cael eu lansio yn Abertawe a'r Wyddgrug cyn bo hir.
- 1.29 Yng Nghymru, mae'r diffyg cyfryngau print brodorol cryf yn gyferbyniad amlwg â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r rhan fwyaf o Gymru sy'n darllen papurau newydd dyddiol yn darllen papurau newydd y DU sy'n cynnwys prin dim cynnwys sy'n ymwneud yn benodol â Chymru a'i sefydliad etholedig datganoledig, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 1.30 Mae gan Gymru lai ddarpariaeth ar yr amblec DTT masnachol a nifer uwch na chyfartaledd y DU yn defnyddio teledu lloeren. Mae hyn yn mynd law yn llaw â lefelau is yn gwrando ar radio masnachol lleol nag yn y Gwledydd eraill, wrth gymharu â gwasanaethau'r BBC, er bod nifer y gorsafoedd radio cymunedol yn tyfu yng Nghymru. Mae BBC Radio Wales (yn Saesneg) a BBC Radio Cymru (yn Gymraeg) yn darparu gwasanaethau cenedlaethol i Gymru gyfan. Mae'r nifer sy'n defnyddio band eang yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU.

- 1.31 Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad pwysleisiodd Pwyllgor Cyngori Ofcom yng Nghymru nad oedd Cymru yn cael gwasanaeth mor gynhwysfawr, ac eithrio'r BBC, â gwledydd eraill y DU. Nid yw cyfryngau print na gwasanaethau radio masnachol Cymru mor gryf ac mae hyn yn peri llai o sialens i'r BBC o ran lluosogrwydd lleisiau.

Y cyd-destun yn Lloegr

- 1.32 Mae Lloegr yn cynnwys y rhan fwyaf o boblogaeth y DU. Ar deledu, mae 14 o wasanaethau newyddion rhanbarthol gan y BBC ac mae ITV yn darparu 15 o wasanaethau. Mae pob gwasanaeth newyddion rhanbarthol yn darparu bwletinau hanner awr o hyd ar ddechrau'r noson o ddydd Llun i ddydd Gwener gyda bwletinau byrrach ar adegau eraill. Mae'r BBC hefyd yn cynhyrchu rhaglenni materion cyfoes rhanbarthol hanner awr o hyd a rhaglenni gwleidyddol ar gyfer rhan o'r flwyddyn. Nid yw ITV yn cynhyrchu unrhyw raglenni rhanbarthol ar gyfer Lloegr heblaw am y rhaglenni newyddion rhanbarthol.
- 1.33 Mae 14 gwasanaeth teledu lleol nawr yn darlledu ar draws Lloegr, gyda deg gwasanaeth arall wedi'u trwyddedu ac yn gobeithio lansio dros y blynyddoedd nesaf.
- 1.34 Mae cyrhaeddiad radio a gwrando ar y radio yr un fath â chyfartaledd y DU; bron i hanner yr holl wrando yn digwydd ar orsafoedd rhwydwaith y BBC. Mae 38 gorsaf Radio Leol BBC, sydd fel rheol yn cyfateb i sir ac sydd ar waith dros Lloegr gyfan gyda'i gilydd. Rhaglenni siarad ydy eu hallbwn ac maen nhw'n cyrraedd 8.8 miliwn o wrandawyr bob wythnos (mae hyn yn cymharu â gwasanaethau rhwydwaith y BBC yn Lloegr o 8.2 miliwn ar gyfer Radio 1, 9.1 miliwn ar gyfer Radio 4 a 4.9 miliwn ar gyfer Radio 5 Live). Mae perfformiad Radio Lleol y BBC yn amrywio ar draws y wlad: yn gyffredinol mae nifer uwch yn gwrando mewn ardaloedd sy'n fwy gwledig ac ymhellach i ffwrdd o Lundain. Mae BBC Radio Cornwall yn cyrraedd 32% o'r boblogaeth yng Nghernyw, ond yn Llundain dydy BBC Radio London ddim ond yn cyrraedd 3%.
- 1.35 Mae tua 130 o wasanaethau radio masnachol yn darparu rhaglenni lleol yn Lloegr. Rhaid i bob gwasanaeth gynhyrchu o leiaf 7.0 awr y dydd o raglenni lleol yn ystod y dydd, mae'n rhaid i'r rhain gynnwys bwletinau brechwast a newyddion lleol drwy gydol y dydd. Mae bron i 200 o wasanaethau radio cymunedol ar draws y wlad hefyd. Mae nifer uwch yn gwrando ar radio digidol yn Lloegr nag yn unrhyw un o'r gwledydd eraill.
- 1.36 Mae'r nifer sy'n defnyddio band eang a'r cyflymder cyfartalog yn Lloegr ar yr un lefel â chyfartaledd y DU.⁵ Mae gan Lloegr hefyd y lefel uchaf o ddarpariaeth cebl, teledu a radio digidol.

⁵ Adroddiad Seilwaith Ofcom 2015

Adran 2

Perfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Ngwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr

At ei gilydd, mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn gryf

- 2.1 Yn gyffredinol mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn darparu'r canlyniadau sydd wedi cael eu pennu mewn deddfwriaeth ar draws y DU drwyddi draw. O ganlyniad, mae dinasyddion a defnyddwyr ym mhob un o Wledydd y DU yn gallu cael gafael ar ystod eang o gynnwys o ansawdd uchel gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.
- 2.2 Serch hynny, mae rhai agweddau o berfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n benodol i bob gwlad yn y DU a'u rhanbarthau. Mae gweddill yr adran hon yn ystyried yr elfennau hyn o berfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y cyd-destun a nodir uchod, ac mae'n cynnwys data 2014.

Mae cynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gonglfaen cynhyrchu rhaglenni yn y Gwledydd datganoledig ac yn rhanbarthau Lloegr y tu allan i Lundain

- 2.3 Rhaid i'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus greu cynnwys sy'n cael ei wneud y tu allan i Lundain, ac mewn rhai achosion, y tu allan i Loegr. Mae'n rhaid i'r BBC a'r rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3 hefyd ddarparu newyddion a chynnwys heb fod yn newyddion sy'n benodol i'r Alban (ac yn achos STV/ITV Border, rhanbarthau yn yr Alban), ac yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr. Nid oes rhwymedigaethau o'r fath ar y farchnad aml-sianel ehangach. O ganlyniad, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan hollbwysig drwy ddarparu cynnwys ar gyfer ac o Wledydd y DU a'u rhanbarthau.
- 2.4 Y BBC sy'n cyfrannu fwyaf o ran faint o gynnwys mae'n ei ddarparu a'i wariant yng Ngwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr y tu allan i Loegr, gyda'r rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3 yn chwarae rhan bwysig drwy gynnig lluosogrwydd lleisiau yn y Gwledydd datganoledig. Mae Channel 4 yn cynyddu ei ymrwymiad i'r Gwledydd datganoledig, gyda rhwymedigaeth yn ei drwydded i wneud 9% o'i gynnwys yn y Gwledydd o 2020 ymlaen.

Mae cydbwysedd cynyrchiadau rhwydwaith wedi newid ers 2008

- 2.5 Mae cydbwysedd y gwariant cymwys ar gynyrchiadau rhanbarthol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar rwydwaith y DU wedi newid o amgylch y wlad ers 2008, gydag ychydig o dan hanner nawr yn digwydd y tu allan i Lundain.⁶ Yn benodol, mae'r gwariant wedi cynyddu'n sylweddol yn yr Alban, gan fwy na dyblu ers 2008 i 5.2%⁷ o gyfanswm gwariant rhwydwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus cymwys yn

⁶ Nid yw'r gwariant hwn yn cynnwys cynyrchiadau newyddion rhwydwaith. I gael rhagor o wybodaeth am wariant ac allbwn rhwydwaith cymwys, edrychwch ar

http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/programme-guidance/reg_prod/

⁷ Er bod gostyngiad o un flwyddyn i r llall, o 5.9% i 5.2% yn 2014.

2014, ac yng Nghymru, lle mae'r gwariant rhwydwaith wedi cynyddu o 1.7% i 3.2% . Yng Ngogledd Iwerddon ers 2008, mae'r gwariant wedi mwy na threblu i 1.2%, ond roedd y ffigur blaenorol yn isel iawn (0.3%). Nid yw'r ffigurau gwariant hyn yn cyfateb yn union i gyfran poblogaeth y DU ym mhob gwlad, ond maen nhw'n symud yn nes. Gwelwyd cynnydd hefyd yn ne ac yng ngogledd Lloegr (yn enwedig Gogledd Orllewin Lloegr) (i 13.4% a 22.5% y naill a'r llall). Mae hyn wedi cael ei achosi gan fwyaf gan ddarlledwyr yn symud eu hadrannau a'u cynyrchiadau, yn enwedig i Salford. Gwelwyd gostyngiad cyfatebol o bron i ddeg pwynt canran mewn gwariant yn Llundain ond hefyd, yn benodol, yng Nghanolbarth a Dwyrain Lloegr, lle mae'r gwariant yn llai na thraean o'i lefel yn 2008.

- 2.6 Mae'r oriau cymwys o allbwn rhwydwaith y DU o'r Alban dros bedair gwaith yn fwy sef 7.5%, er bod hyn yn ostyngiad o un flwyddyn i'r llall o 8.4% yn 2013. Mae'r oriau allbwn o Ogledd Iwerddon hefyd wedi tyfu i bron 1% (0.8% erbyn hyn), er bod y ffigur blaenorol yn isel iawn (0.1%), ac mae'r oriau o Gymru wedi dyblu i 1.8%. Yn Lloegr mae Llundain wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn oriau, gan nawr wneud o dan hanner yr holl oriau wrth gymharu â bron i 65% yn 2008, sydd wedi bod o blaid gogledd Lloegr (yn enwedig Gogledd Orllewin Lloegr), sydd nawr yn gwneud bron i 25% o'r oriau. Mae'r allbwn o Ganolbarth a Dwyrain Lloegr wedi disgyn o'r lefel isaf o ran nifer (8.9%) a gwariant (6.7%) ar gynyrchiadau rhwydwaith ymhlith rhanbarthau Lloegr i 5.1% a 1.6% y naill a'r llall, er bod yr ardal hon yn cynrychioli 25% o'r boblogaeth.
- 2.7 Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant ac allbwn rhwydwaith sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ac sydd wedi cael ei wneud y tu allan i Loegr yn cael ei sbarduno gan y BBC a Sianeli 4 a 5 yn hytrach nag ITV. Dim ond un rhaglen (a gafodd ei gwneud yn yr Alban) a gynhyrchodd ITV y tu allan i Loegr yng Nghofrestr 2014 *Cynhyrchwyd y tu allan i Lundain* Ofcom.⁸ Roedd y rhan fwyaf o'r rhaglenni eraill o Dde a Gogledd Lloegr.⁹

Mae'r oriau a'r gwariant ar raglenni heb fod ar gyfer y rhwydwaith wedi disgyn

- 2.8 Er bod cynyrchiadau rhwydwaith yn y Gwledydd wedi tyfu mewn termau real ers 2008, roedd gwariant ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn benodol ar gyfer pob Gwlad neu ranbarth (gan gynnwys rhaglenni newyddion a materion cyfoes) wedi disgyn o £404m yn 1998 i £358m yn 2008 ac i £277m yn 2014. Mae Cymru a rhanbarthau Lloegr wedi gweld y gostyngiadau real serthaf mewn gwariant ar raglenni gwreiddiol rhwng 2008 a 2014, sef 30% a 31% y naill a'r llall.¹⁰ Ac eithrio yn yr Alban, lle mae'r allbwn wedi codi 886 awr ers 2008, mae'r gostyngiad hwn mewn gwariant wedi cael ei gyfateb gan ostyngiad mewn oriau, er nad ydy hyn i'r un graddau.¹¹ Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r gostyngiad yn rhwymedigaethau

⁸ http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/broadcast/reviews-investigations/psb-review/compliance14/Made_Outside_of_London.pdf

⁹ Er bod gan ITV a Channel 5 rhwymedigaethau i gynhyrchu neu i gomisiynu cynnwys y tu allan i Lundain, dim ond y BBC a Channel 4 sydd wedi ymrwmo i gynhyrchu cynnwys yn y Gwledydd datganoledig.

¹⁰ Heb gynnwys gwariant ar raglenni Cymraeg a Gaeleg, na chyfanswm y gwariant ar BBC Alba na gwariant y BBC ar S4C.

¹¹ Heb gynnwys rhwymedigaethau ITV Border, a newidiodd ym mis Ionawr 2014. Mae manylion y rhwymedigaethau hyn wedi cael eu cynnwys yn Adran 1 y ddogfen hon. Mae'r ffigurau allbwn a gwariant ar gyfer y rhanbarth ITV Border i gyd yn cael eu cyfrif o dan Loegr, ond roedden nhw'n cynnwys £725,000 ar raglenni materion cyfoes ar gyfer is-ranbarth yr Alban ITV Border, a oedd yn golygu 83 awr o gynnwys. Roedd hefyd 21 awr o raglenni heb fod yn newyddion/heb fod yn faterion cyfoes a ddarlledwyd yn benodol ar gyfer gwylwyr yn yr is-ranbarth.

trwydded Sianel 3 ar gyfer rhaglenni ym mhob un o'r Gwledydd a'u rhanbarthau yn 2008.

- 2.9 Mae'r oriau rhaglenni'n benodol ar gyfer pob Gwlad neu ranbarth wedi disgyn ym mhob un o Wledydd y DU dros y cyfnod, heb gynnwys yr Alban. Yn hyn, mae oriau'r BBC mewn Saesneg yn yr Alban¹² a rhanbarthau Lloegr wedi aros yn weddol sefydlog, ond wedi disgyn yng Nghymru ac wedi dangos mwy o amrywiad yng Ngogledd Iwerddon.
- 2.10 Mae'r rheini sy'n dal y drwydded Sianel 3 yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr i gyd wedi lleihau eu horiau o raglenni heb fod yn rhai rhwydwaith, ond mae STV yn yr Alban bron wedi dyblu ei oriau dros y cyfnod. Ac eithrio yn yr Alban, y BBC fu'r darparwr mwyaf o bob math o raglenni, ac ers 2009, mae ITV (yng Nghymru ac yn rhanbarthau Lloegr) ac UTV wedi darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes gan fwyaf. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o gyfanswm o 697 awr gan y rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3, a gostyngiad llai, 81 awr, gan y BBC.¹³
- 2.11 I raddau helaeth mae'r gostyngiad dros y cyfnod yn adlewyrchu'r gostyngiad yn rhwymedigaethau trwyddedau Sianel 3 yn 2008, a gostyngiad parhaus mewn oriau gan UTV ac ITV Cymru. Mae'r Alban yn mynd yn groes i'r patrwm hwn oherwydd ymdrechion STV, sydd wedi mynd ati'n gyson i ddarparu mwy nag ymrwymadau ei drwydded, a mwy na lefel darpariaeth y BBC, yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Mae hi'n werth nodi bod hyn wedi digwydd i raddau helaeth, ond nid yn gyfan gwbl, oherwydd un rhaglen, *The Nightshift*, cyfuniad byw dros nos o eitemau newyddion a deunyddiau o'r archif gydag elfen sgwrsio ryngweithiol.
- 2.12 Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'r BBC wedi bod yn asgwrn cefn y rhaglenni sy'n benodol i'r Gwledydd hynny, yn enwedig rhaglenni heb fod yn newyddion, er ei bod hi'n werth nodi rhwng 2008 a 2014, bod nifer yr oriau gan y BBC a gafodd eu dangos am y tro cyntaf yng Nghymru heb fod yn rhaglenni rhwydwaith wedi disgyn 15%.¹⁴ Yng Ngogledd Iwerddon, mae UTV yn dal i ddarparu mwy na'r rhwymedigaeth yn ei drwydded ar gyfer nifer yr oriau wythnosol o raglenni heb fod yn newyddion (2.0 awr) na'i sianeli cyfatebol yng Nghymru a'r Alban (1.5 awr) ac mae ei wariant ar raglenni ar gyfer Gogledd Iwerddon wedi aros yn weddol sefydlog ers 2009, ar ôl y gostyngiad mwy llym yn y flwyddyn flaenorol.
- 2.13 Mae ffigurau hanesyddol yn dangos y bu gostyngiad o 31% yng ngwariant y BBC a Sianel 3 ar raglenni a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer y Gwledydd a'r rhanbarthau rhwng 1998 a 2014 mewn termau real (er bod y gwariant cyffredinol ar raglenni rhwydwaith sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi aros yn sefydlog mewn termau real dros yr un cyfnod). Mae'r gostyngiad dros y cyfnod hwn o ganlyniad i'r gostyngiad o 68% yng ngwariant termau real Sianel 3, sy'n mynd yn groes i'r cynnydd o 14% yng ngwariant termau real y BBC. Roedd yr oriau a ddarlledwyd am y tro cyntaf dros y cyfnod wedi disgyn i raddau llai; 20%. Roedd oriau Sianel 3 wedi disgyn 44%, gan fynd yn groes i gynydd y BBC o 22% er ei bod hi'n wrth nodi bod llawer o'r cynnydd hwn wedi

¹² Roedden nhw wedi codi yn 2014 yn yr Alban o 791 awr y flwyddyn i 867, yn bennaf o ganlyniad i raglenni penodol i'r Alban a oedd yn ymwneud â'r refferendwm ar annibyniaeth a Gemau'r Gymanwlad.

¹³ Heb gynnwys oriau rhaglenni Cymraeg a Gaeleg, allbwn S4C nac allbwn BBC Alba.

¹⁴ Heb gynnwys gwariant y BBC ar S4C.

digwydd rhwng 1998 a 2002, ers hynny mae allbwn y BBC wedi aros yn weddol sefydlog.

Mae bodlonrwydd gyda'r newyddion ar gyfer Gwledydd y DU a'r rhanbarthau wedi codi, er bod y nifer sy'n gwyllo yn disgyn

- 2.14 Mae cynulleidfaoedd yn holl Wledydd y DU yn credu bod y newyddion sy'n cael eu darparu ar gyfer eu Gwlad neu eu rhanbarth ymysg dibenion pwysicaf darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac mae lefel y pwysigrwydd wedi codi ar draws y DU, ac yn enwedig yn yr Alban.
- 2.15 Mae cyfanswm nifer yr oriau gwyllo ar gyfer rhaglenni newyddion y Gwledydd a'r rhanbarthau wedi disgyn dros bedair awr (15%) ers 2008 i 24.0 awr y pen yn 2014. Yn fwy diweddar, mae gwyllo'r genre yma wedi disgyn dros y pedwerydd cyfnod o'r bron, o 27.6 awr yn 2010 ac o 25.3 awr yn 2013. Mae'r rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3 wedi gweld gostyngiadau mwy na BBC One o ran oriau gwyllo y flwyddyn ar gyfer eu rhaglenni newyddion ar gyfer y Gwledydd a'r rhanbarthau, gyda gostyngiad o 3.7 awr y pen rhwng 2008 a 2014. Yn groes i hynny, mae BBC One wedi disgyn 0.6 awr y pen dros yr un cyfnod. Mae'r oriau gwyllo ar gyfer rhaglenni newyddion rhyngwladol/cenedlaethol ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd wedi disgyn 7.8 awr y pen y flwyddyn ers 2008, er bod hwn yn ostyngiad cyfartaleddol llai (ychydig dan 10%) wrth gymharu â rhaglenni newyddion y Gwledydd a'r rhanbarthau.
- 2.16 Mae bodlonrwydd cynulleidfaoedd gyda'r newyddion sy'n cael eu darparu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y Gwledydd a'r rhanbarthau hefyd wedi codi'n sylweddol yn holl Wledydd y DU dros y cyfnod. Yn fwyaf amlwg, mae Gogledd Iwerddon a'r Alban wedi gweld mwy o fodlonrwydd ymysg eu cynulleidfaoedd, a dyma'r unig ddwy Wlad lle'r oedd bodlonrwydd gyda'r newyddion gan y rheini a oedd yn dal trwydded Sianel 3 wedi cynyddu'n sylweddol yn hyn o beth, yn uwch na lefelau Cymru a Lloegr. Yng Ngogledd Iwerddon mae bodlonrwydd wedi codi, roedd dros dri chwarter yr ymatebwyr wedi rhoi sgôr uchel yn 2014, yr uchaf o'r holl Wledydd, ers 2010 mae'r tair gwlad ddatganoledig wedi gweld cynnydd o dros 20 pwynt canran mewn bodlonrwydd.
- 2.17 Efallai fod y cynnydd yn y pwysigrwydd a'r bodlonrwydd a gofnodwyd gan gynulleidfaoedd yng nghyswllt newyddion ar gyfer y Gwledydd a'r rhanbarthau yn adlewyrchu'r newid yn y setliad datganoli yn y DU, ac yn enwedig yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, ac efallai ei fod yn adlewyrchu'r pwyslais mae UTV ac STV yn ei roi ar eu darpariaeth newyddion. Mae newyddion UTV yn denu cyfran fwy o'r gynulleidfa yng Ngogledd Iwerddon na newyddion BBC Northern Ireland yn y slot dilynol, fel y mae bwletin newyddion min nos ITV Border, gan wasanaethu gwylwyr ar draws y ffin. Mewn manau eraill, mae newyddion y BBC ar gyfer y Gwledydd a'r rhanbarthau'n denu cyfran fwy o'r gynulleidfa yn gyffredinol na newyddion y rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3. Mae hyn yn wir hyd yn oed yn yr Alban, lle mae STV yn darparu mwy o newyddion i'r Alban na'r BBC (yn bennaf oherwydd ei fod yn darlledu newyddion rhanbarthol ar gyfer gwahanol rannau o'r Alban), ac yn fwy na'r cwotâu yn ei drwydded. Fodd bynnag, yn 2014, roedd cyfran bwletin min nos o ddydd Llun i ddydd Gwener STV wedi disgyn am y drydedd flwyddyn o'r bron, i 22.9%. Roedd cyfran bwletin newyddion min nos BBC One hefyd wedi disgyn o un flwyddyn i'r llall (i 30.5%) ond arhosodd yn uwch na'r lefel yn 2008 ac yn uwch na lefel STV.

- 2.18 Er bod cynulleidfaoedd yn dweud wrthym fod pwysigrwydd newyddion ar gyfer y Gwledydd a'r rhanbarthau wedi tyfu, a bod eu bodlonrwydd â'r rhaglenni hyn wedi codi, mae gwariant ar raglenni newyddion y Gwledydd a'r rhanbarthau gan BBC a'r rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3 wedi disgyn 23% mewn termau real rhwng 2008 a 2014, gyda gostyngiad ychydig yn llai o ran nifer yr oriau (9%), Efallai fod hyn yn rhannol oherwydd arbedion effeithlonrwydd wrth gasglu newyddion, defnyddio technoleg newydd, yn ogystal â gostyngiad mewn gwariant yn Lloegr.

Mae gwasanaethau iaith y Gwledydd yn chwarae rhan bwysig

- 2.19 Yng Nghymru mae S4C yn gweithredu'n annibynnol, er ei bod yn cael ei hariannu yn bennaf drwy ffi'r drwydded sy'n cael ei rhoi iddi gan Ymddiriedolaeth y BBC, yn rhannol drwy dderbyn rhywfaint o raglenni gan y BBC, ac yn rhannol drwy'r Adran dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon. Yn yr Alban, mae'r BBC ac MG Alba yn rhedeg BBC Alba mewn partneriaeth ac mae'r naill a'r llall yn cyfrannu cyllid ato. Nid oes gan Ogledd Iwerddon sianel iaith frodorol benodol, gyda rhaglenni Gwyddeleg a rhaglenni Gaeleg Ulster yn cael eu cefnogi gan Gronfa Ddarlledu'r Wyddeleg a Chronfa Ddarlledu Gaeleg Ulster sy'n darlledu'n bennaf drwy BBC NI a gwasanaethau o Weriniaeth Iwerddon, TG4 ac RTÉ. O ganlyniad, mae'r gwariant ar y gwasanaethau hyn yn amrywio'n sylweddol.
- 2.20 Roedd gwariant cyfun S4C a'r BBC ar raglenni ar gyfer S4C mewn termau real yn £92m yn 2013. Mae S4C wedi gweld gostyngiad termau real mawr mewn gwariant ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, a ddisgynnodd £23m rhwng 2009 a 2013, i £64m. Mae gwariant termau real BBC Alba hefyd wedi disgyn, o'i anterth sef £20m yn 2009, er bod cyfradd y gostyngiad wedi arafu dros y blynyddoedd diwethaf mewn termau real. Yn unol â'i gwariant uwch, mae S4C yn comisiynu'r nifer fwyaf o oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf (1,978 yn 2013) wrth gymharu â 643 gan BBC Alba.
- 2.21 Mae cynulleidfa BBC Alba wedi cynyddu'n sylweddol ers ei lansio ar loeren yn 2009. Credir bod y sianel yn cyrraedd 17.6% o wylwyr yr Alban bob wythnos yn 2013. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y sianel wedi dod ar gael ar Freeview a chebl digidol ym mis Mehefin 2011.¹⁵ Mae cyrhaeddiad wythnosol rhaglenni Cymraeg ar S4C wedi disgyn o 19.5% yn 2008 i 14.1% yn 2014, gan gyrraedd 373,000 o wylwyr ar wythnos gyfartalog¹⁶, er bod y nifer sy'n gwyllo rhaglenni'r sianel ar-lein yn cynyddu. Erbyn 2013/14, roedd ei chyrhaeddiad wythnosol ymysg siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi disgyn o dan 200,000, er bod hyn yn dal i gyfrif am 35% o'r siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.¹⁷ Roedd cyfran S4C o'r gynulleidfa yng Nghymru wedi disgyn i 1.0% yn 2014 o 1.3% yn 2010.¹⁸ Yn ystod 2013/14 roedd rhaglenni ieithoedd brodorol a ddarlledwyd ar BBC NI wedi cyrraedd cynulleidfa o 660,000, ychydig o dan 40% o boblogaeth Gogledd Iwerddon.
- 2.22 Roedd yr ymatebwyr o'r tair Gwlad ddatganoledig wedi nodi pwysigrwydd gwasanaethau ieithoedd brodorol i ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r

¹⁵ Does dim modd cymharu ffigurau cyrhaeddiad BBC Alba yn uniongyrchol â gwasanaethau eraill oherwydd methodoleg mesur gwahanol. Mae cyrhaeddiad yn seiliedig ar honiad o wyllo 15+ munud bob wythnos, nid data BARB.

¹⁶ BARB. Unigolion 4+ rhanbarth S4C.

¹⁷ Adroddiad Blynyddol 2014 S4C

¹⁸ Cyflwynodd BARB banel newydd ar 1 Ionawr 2010, a defnyddiwyd diffiniad rhanbarthol newydd o Gymru yn lle 'unrhyw gartref a allai gael S4C', a oedd yn cynyddu'r boblogaeth gyffredinol. Roedd newidiadau eraill yn golygu cynnwys Channel 4 a holl wyllo ITV (nid dim ond rhanbarth ITV Cymru) wrth gyfrifo'r gyfran. Felly roedd cyfanswm y gwyllo teledu wedi cynyddu, ac mae cyfran S4C yn cael ei chyfrifo o hyn. Mae'r data wedi cael ei gymharu â 2010 er mwyn cael cysondeb.

sector cynhyrchu annibynnol, gan dynnu sylw'n benodol at y rhan mae S4C yn ei chwarae drwy gefnogi cynhyrchwyr Cymraeg annibynnol. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn pwysleisio'r rhan sy'n cael ei chwarae gan y cynnwys hwn drwy ehangu'r ystod o genres sy'n cael eu darparu gan raglenni heb fod yn rhai rhwydwaith, gan fod cynrychiadau'r BBC a Sianel 3 ar gyfer Cymru yn canolbwyntio ar newyddion a materion cyfoes.

Mae cynrychioli a phortreadu yn dal yn bwysig i gynulleidfaeodd

- 2.23 Mae Traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus Ofcom yn dangos bod cynulleidfaeodd yn holl Wledydd y DU yn rhoi llawer iawn o bwysigrwydd ar y ffaith bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn portreadu eu Gwlad neu eu rhanbarth yn Lloegr yn deg i weddill y DU; mae cynulleidfaeodd Gogledd Iwerddon ar y brig o ran Gwledydd y DU sy'n credu bod hyn yn bwysig. Er bod barn cynulleidfaeodd ar bwysigrwydd yn amrywio yn ôl Gwlad, mae llawer iawn llai o amrywiaeth mewn bodlonrwydd gyda darparu, gyda llai na hanner y cynulleidfaeodd ym mhob Gwlad yn dweud eu bod yn fodlon.
- 2.24 Mae'r sgoriau bodlonrwydd ar gyfer pob Gwlad wedi gwella dros y cyfnod, ac eithrio yng Nghymru, lle maen nhw wedi aros yn sefydlog. Roedd bodlonrwydd yng Ngogledd Iwerddon wedi codi i 45% yn 2014, y lefel uchaf o blith yr holl wledydd, yn ogystal â'r cynnydd mwyaf. Mae'r Alban hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn bodlonrwydd ers 2008. Fodd bynnag, dyma ddiben darlledu gwasanaeth cyhoeddus lle mae'r bylchau mwyaf yn dal i fodoli rhwng canfyddiad ynghylch pwysigrwydd a bodlonrwydd gyda'r ddarpariaeth.¹⁹
- 2.25 Roedd ymchwil Ofcom yn 2015 i ganfyddiad cynulleidfaeodd ynghylch sut roedd eu gwlad neu eu rhanbarth yn cael ei gynrychioli a'i bortreadu ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dangos bod hwn yn fater i rai cynulleidfaeodd, er yn gyffredinol nid mor amlwg â nodweddion gwarchoddedig fel ethnigrwydd neu anabledd. Mae'n debyg y bydd safbwyntiau gwylwyr ar portreadu cadarnhaol a negyddol yn fwy dargyfeiriol yn y Gwledydd datganoledig nag yn y DU yn gyffredinol nac yn rhanbarthau Lloegr. Roedd llai o'r ymatebwyr yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn meddwl bod pobl o'u gwlad yn cael eu portreadu yn niwtral, ond yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, roedd nifer o'r ymatebwyr â barn ynghylch tŷn a phortreadu pobl o'u Gwlad. Wrth ystyried polaredd cymharol y safbwyntiau yn y Gwledydd datganoledig, roedd yr ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon yn fwy tebygol (26%) o feddwl bod pobl o'u gwlad yn cael eu portreadu'n negyddol.
- 2.26 Fodd bynnag, roedd cynulleidfaeodd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy tebygol na phobl mewn unrhyw ardal arall, ac eithrio Llundain a'r De Ddwyrain, i feddwl bod pobl o'u gwlad yn cael eu portreadu'n gadarnhaol. A dweud y gwir, roedd dros 30% o'r ymatebwyr yng Nghymru a Gogledd Iwerddon o flaen yr ymatebwyr yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr (26%) wrth ystyried bod pobl o'u gwlad yn cael eu portreadu yn gadarnhaol. Ymysg yr ymatebwyr yn yr Alban, roedd hyn yn 25%. Roedd dau ddeg y cant o'r ymatebwyr yng Ngogledd Lloegr o'r farn bod pobl o'u rhanbarth yn cael eu portreadu'n negyddol; dyma'r gyfran uchaf ar draws y DU (sy'n uwch na holl ranbarthau eraill Lloegr a'r Gwledydd datganoledig).
- 2.27 O ran cynrychiolaeth, cynulleidfaeodd yng Ngogledd Iwerddon sydd fwyaf tebygol o feddwl bod rhy ychydig o bobl o Gogledd Iwerddon ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sef 42%. Roedd dau ddeg un y cant o'r holl wylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn credu bod rhy ychydig o bobl o Gogledd Iwerddon ar

¹⁹ Cofiwch: roedd geiriad y cwestiwn hwn wedi newid yn 2010.

sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, y gyfran uchaf mewn unrhyw wlad neu ranbarth.

Adran 3

Meysydd a allai achosi pryder

Mae potensial rhannu cynulleidfaoedd ymhellach yn peri sialens i ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

- 3.1 Roedd yr Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus wedi nodi er y byddai newidiadau mewn technoleg ac ymddygiad cynulleidfaoedd yn agor ystod o gyfleoedd cyffrous i ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn ffyrdd newydd, bydden nhw hefyd yn peri sialensiau newydd i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Er enghraifft, gall y pwysau ar gyllido cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus gynyddu os bydd rhywfaint o'r ddeinamog rydyn ni'n ei gweld yn y farchnad ar hyn o bryd yn cyflymu. Mae mwy o sefyllfaoedd hefyd lle mae'r patrwm sy'n esblygu i wyllo cynnwys ar-lein yn digwydd yn gynt o lawer.
- 3.2 Roedd ein Hadolygiad felly wedi nodi nifer o newidiadau posibl i'r system a allai helpu i sicrhau darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus newydd yn dal i gael ei ariannu'n dda, ei fod ar gael yn eang a'i bod yn hawdd dod o hyd iddo yr un mor berthnasol ym mhob Gwlad yn y DU, ag ydyw ar draws y DU gyfan.
- 3.3 Ond mae rhai sialensiau unigryw yn y Gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr.

Sialensiau allweddol i gynnwys Gwledydd a'r rhanbarthau

- 3.4 Mae ffyrdd y gallai'r sialensiau uchod fod yn arbennig o berthnasol i agweddau ar y ddarpariaeth yn y Gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr.
- 3.5 Mae rhaglenni newyddion a heb fod yn newyddion ar gyfer y Gwledydd a'r rhanbarthau yn cael eu darparu gan y BBC yn unig, drwy gyllid drwy ffi'r drwydded, a'r rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3 (ITV, ITV Cymru, STV ac UTV) yn gyfnewid am rai asedau rheoleiddiol. Bydd darparu'r cynnwys hwn yn y dyfodol felly yn dibynnu llawer mwy ar y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus nag ar gyfer nifer o genres eraill.
- 3.6 Gallai newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd leihau gwerth yr asedau rheoleiddiol dros amser. Gallai hyn effeithio'n uniongyrchol ar y graddau mae rheoleiddio yn gallu sicrhau ymrwymadau gan y rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3. Gwelwyd gostyngiadau sylweddol yn barod mewn allbwn heb fod yn newyddion ar gyfer Gwledydd a rhanbarthau'r DU gan y rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3, ac eithrio yn yr Alban, ers lleihau'r rhwymedigaethau yn y drwydded yn y maes hwn yn 2008. Maes o law gallai hyn effeithio ar newyddion ar gyfer y Gwledydd a'r rhanbarthau. Er ei bod hi'n bosibl y gallai rhai sy'n dal trwyddedau, fel STV ac UTV, barhau i fod â chymhellion sefydliadol eraill i fynd y tu hwnt i'w gofynion rheoliadol, efallai na fydd modd gwarantu canlyniad o'r fath.
- 3.7 Mae gallu'r BBC i gyllido rhaglenni sy'n benodol i bob Gwlad neu ranbarth yn y dyfodol yn fater i'r adolygiad o'r Siarter. Mae gan y broses honno oblygiadau ehangach hefyd i ddarpariaeth yn y Gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr. Er enghraifft, mae S4C yn cael 90% o'i chyllid drwy ffi'r drwydded, sydd hefyd yn cyfrannu cyllid ar gyfer teledu lleol yn y DU. Mae'r BBC hefyd yn cyflawni swyddogaethau allweddol eraill yn y Gwledydd, fel rhedeg BBC Alba yn yr Alban, a

darlledu rhaglenni Gwyddeleg sy'n cael eu hariannu gan yr ILBF yng Ngogledd Iwerddon.

- 3.8 Ar hyn o bryd mae cynyrchiadau y tu allan i Lundain ar gyfer y prif wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu darparu fel canran o gyfanswm yr allbwn cyffredinol. Byddai unrhyw ostyngiad yn y buddsoddiad cyffredinol gan y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus felly yn cael ei adlewyrchu mewn cynyrchiadau ym mhob un o Wledydd y DU.

Yn yr Alban, mae prif bryder ymatebwyr yn ymwneud â chynaliadwyedd marchnad cynhyrchu'r Alban

- 3.9 Mae'r Alban wedi gweld gwelliannau sylweddol mewn gwariant ac oriau cynyrchiadau rhwydwaith y DU, gan gyrraedd bron i 6% o wariant rhwydwaith a dros 8% o ran oriau, yn ogystal ag elwa o'r lefel uchaf o allbwn heb fod yn allbwn rhwydwaith o blith yr holl wledydd a rhanbarthau gan y cwmni sy'n dal ei thrwydded Sianel 3, STV. Er y croesewir hyn, rydyn ni'n nodi pryderon rhai rhanddeiliaid ynghylch i ba raddau y mae'r cynnydd mewn cynyrchiadau rhwydwaith, yn benodol, wedi creu diwydiant cynaliadwy yn yr Alban, ac iechyd cysylltiedig y sector annibynnol, yn enwedig wrth ystyried amlygrwydd polisïau 'codi a symud' lle mae cynhyrchu rhaglenni comisiwn yn cael ei symud i rywle arall. Rydyn ni hefyd yn nodi er bod STV yn darparu rhywfaint o raglenni i rwydweithiau'r DU, nad yw'n cael llawer o gomisiynau gan rwydwaith ITV.
- 3.10 Mae hi'n werth nodi nad ydy darpariaeth STV o lefel uwch o lawer o allbwn heb fod yn allbwn rhwydwaith, yn enwedig mewn perthynas â chynnwys heb fod yn newyddion, ddim yn cael ei sicrhau drwy ei drwydded. Ar hyn o bryd mae'n cynhyrchu cymaint â hyn o gynnwys oherwydd mae'n gweld y rhesymwaith masnachol dros wneud hynny, ac nid oes unrhyw reswm dros amau y bydd hyn yn newid yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, petai hyn yn stopio am unrhyw reswm, gallai dorri'n ôl i lefel is y rhwymedigaethau yn ei drwydded.
- 3.11 Mae gwasanaethau sy'n benodol i'r Alban, fel newyddion i'r Alban a BBC Alba wedi gweld gwelliannau o ran bodlonrwydd cynulleidfaoedd, ac mae'r rhain yn amlwg yn cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd. Mae bodlonrwydd gydag ymddiriedaeth mewn rhaglenni newyddion yn yr Alban wedi aros yn sefydlog ers 2008, gyda saith ymatebydd o bob deg yn rhoi sgôr uchel ar gyfer hyn.
- 3.12 Efallai fod proffil gwleidyddol diweddar yr Alban mewn materion sy'n effeithio ar y DU i gyd, oherwydd y refferendwm ar annibyniaeth, Comisiwn Smith a'r drafodaeth ynghylch rhagor o ddatganoli, wedi gwella'r ffordd caiff materion yr Alban eu cynrychioli ar lefel rhwydwaith y DU, ac efallai fod hyn wedi gwella'r canfyddiadau ynghylch cynrychiolaeth. Mae cynulleidfaoedd yr Alban yn fwy tebygol na chynulleidfaoedd unrhyw wlad neu ranbarth arall i gredu eu bod yn gweld 'tua'r nifer iawn' o Albanwyr ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Mae lluosogrwydd yn sialens barhaus yng Nghymru

- 3.13 Gyda'i gilydd mae'r BBC ac S4C yn cefnogi'r rhan fwyaf o gynyrchiadau yng Nghymru, ac mae gwasanaethau'r BBC yn benodol yn cael eu defnyddio'n eang (ar deledu ac ar radio).

Yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, sydd â thrwyddedigion Sianel 3 ar sail Gwlad, mae ITV Cymru yn dal y drwydded ar gyfer Cymru, gan redeg ITV Cymru.

Mae cyfran cynulleidfa ITV Cymru yn is na STV ac UTV ar gyfer ei newyddion min nos, gydag allbwn newyddion min nos BBC One yn fwy poblogaidd fel cyfran. Felly mae'n bryder bod allbwn y BBC ar gyfer Cymru mewn Saesneg wedi disgyn dros 100 awr ers 2008. Roedd rhai o'r ymatebwyr wedi pwysleisio eu pryder ei bod hi'n debyg, yng nghyd-destun trafodaethau ynghylch rhagor o ddatganoli, na fydd cynulleidfaedd yng Nghymru yn elwa o'r un lluosogrwydd barn â chynulleidfaedd eraill.

- 3.14 Er bod cyfran yr oriau a'r gwariant ar allbwn rhwydwaith wedi codi yng Nghymru ers 2008, mae wedi disgyn es iddo gyrraedd ei anterth yn 2012.
- 3.15 Ers 2008, mae cynulleidfaedd yng Nghymru wedi gweld gostyngiad sylweddol o 30% mewn allbwn yn benodol ar gyfer Cymru, sydd wedi cael ei sbarduno gan fwyaf mewn gostyngiad mewn rhaglenni heb fod yn newyddion. I raddau helaeth mae cynulleidfaedd Cymru yn dibynnu ar y BBC am raglenni Saesneg sy'n benodol am Gymru, yn enwedig cynnwys nad yw'n newyddion, er bod ITV Cymru yn dal i wneud cyfraniad pwysig drwy gynhyrchu o leiaf 90 munud o gynnwys poblogaidd heb fod yn newyddion bob wythnos, yn unol â'r rhwymedigaeth yn ei drwydded.
- 3.16 Mae allbwn S4C yn chwarae rhan bwysig drwy ddarparu rhaglenni, ar draws ystod eang o genres, i gynulleidfaedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru. Mae'n denu'r swm mwyaf o gyllid ar gyfer cynnwys o'r fath nag unrhyw wlad arall, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r ieithoedd brodorol eraill, a bod y Gymraeg yn derbyn yr un cydraddoldeb swyddogol â'r Saesneg. Fodd bynnag, mae S4C wedi gweld gostyngiadau mawr yn ei chyllid dros y blynyddoedd diwethaf, ac nid yw lefel ei chyllid ar gyfer y dyfodol yn sicr. Dros yr un cyfnod mae ei chyfran o'r cynulleidfa wedi disgyn. Mae rhanddeiliaid fel Teledwyr Annibynnol Cymru, sy'n cynrychioli cynhyrchwyr annibynnol yng Nghymru, a Phwyllgor Cynghori Ofcom yng Nghymru wedi pwysleisio'r rhan hollbwysig mae S4C yn ei chwarae yn y sector cynrychiadau annibynnol Cymraeg, gan mai S4C ydy'r comisiynydd cynnwys mwyaf yng Nghymru.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon yn gwneud yn dda gyda rhaglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer Gogledd Iwerddon, ond nid ydynt yn darparu llawer o raglenni ar gyfer rhwydweithiau'r DU

- 3.17 Mae rhaglenni gan BBC NI ac UTV yn dal yn boblogaidd ymysg cynulleidfaedd Gogledd Iwerddon, ac mae faint o raglenni sydd wedi cael eu cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon wedi disgyn yn araf ers cwtogi ar rwymedigaethau rhaglenni wythnosol UTV yn 2008. Mae gan UTV rwymedigaeth trwydded sydd ychydig yn uwch na'r gweddill sy'n dal trwyddedau Sianel 3.
- 3.18 Wrth edrych ar y lefelau cynhyrchu ar gyfer rhwydweithiau'r DU, efallai fod Gogledd Iwerddon yn dioddef oherwydd problemau graddfa: ers 2008 Gogledd Iwerddon sydd wedi elwa lleiaf ar y cynnydd mewn cynhyrchu rhaglenni rhwydwaith ar draws Gwledydd y DU. Mae'r gyfran o ran gwariant a nifer yr oriau sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer y rhwydwaith yng Ngogledd Iwerddon yn dal yn is o lawer na'r gyfran gyfatebol o boblogaeth y DU, ac mae'n cael ei ddominyddu gan y BBC. Er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gynyddu faint o raglenni rhwydwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon - gyda rhywfaint o lwyddiant - bydd hyn yn dal yn sialens, ac nid yw'n debyg o gynnal sector cynhyrchu annibynnol ffyniannus.

- 3.19 Mae'r mater o raddfa hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn lefelau portreadu ar lefel rhwydwaith. Efallai nid yw'n syndod mai cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon yw'r mwyaf tebygol o holl Wledydd y DU a'u rhanbarthau i greu eu bod yn cael eu tangynrychioli ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus, wrth ystyried ei gyfraniad is at gynyrchiadau rhwydwaith. Er bod canfyddiadau cynulleidfaoedd o gynrychiolaeth, portreadu a bodlonrwydd yn gymhleth, mae hi'n glir nad yw cyfran fawr o'r gynulleidfa yng Ngogledd Iwerddon yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.
- 3.20 Nid oes gan Ogledd Iwerddon sianel iaith frodorol sy'n cymharu ag S4C neu BBC Alba, er bod TG4 Gweriniaeth Iwerddon yn chwarae rhan hollbwysig drwy ddarparu rhaglenni Gwyddeleg, ac mae'r sianel hon ar gael yn eang yng Ngogledd Iwerddon. Mae rhaglenni Gwyddeleg a Gaeleg Ulster wedi ennill eu plwyf ac yn rhannau pwysig o'r ecoleg darlledu yng Ngogledd Iwerddon, ac maen nhw'n amlwg yn cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd, er bod y prif gyllid gan yr ILBF a'r USBF ddim ond wedi cael ei sicrhau tan 2016.

Mae gwahaniaethau rhanbarthol yn Lloegr yn peri sialens i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus

- 3.21 Er bod y rhan fwyaf o allbwn a chynyrchiadau rhwydwaith a heb fod yn rhwydwaith yn cael eu gwneud yn Lloegr, mae gwahaniaethau sylweddol rhwng rhanbarthau Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o'r cynyrchiadau ar gyfer rhwydweithiau'r DU yn dal yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr, er y gwelwyd cynnydd yng Ngogledd Lloegr, ac yn enwedig Gogledd Orllewin Lloegr, wrth i gynhyrchu symud i Salford. Ond mae hyn, gyda mwy o gynhyrchu yn y Gwledydd eraill, wedi arwain at ostyngiadau mawr yng Nghanolbarth a Dwyrain Lloegr, sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli tua 25% o boblogaeth y DU.
- 3.22 Roedd yr ymatebwyr i'n hymgyngoriad wedi pwysleisio bod y lefel is hon o gynhyrchu a gwario wedi cael effaith economaidd ar gynhyrchwyr yn y rhanbarthau hyn; efallai ei fod hefyd wedi dylanwadu ar agweddau cynulleidfaoedd am gynrychiolaeth, gan fod y gwylwyr yn fan hyn ymysg y lleiaf tebygol o unrhyw wlad neu ranbarth i weld eu hunain o leiaf bob wythnos ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- 3.23 Hefyd nid oes llawer iawn o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar gyfer rhanbarthau Lloegr, a'r BBC ydy'r unig ddarparwr.
- 3.24 Yn amlwg mae cyfaddawd rhwng creu canolfannau rhanbarthol cynaliadwy, a sicrhau cyflenwad amrywiol o bob rhan o Loegr. Heb ganolfannau yng Nghanolbarth Lloegr, De Orllewin Lloegr a Gogledd Ddwyrain Lloegr, bydd angen i ddarlledwyr ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod pobl yn yr ardaloedd hyn yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli a'u bod yn cael eu portreadu'n deg ar y sgrin.